**COSBAU FFEILIO HWYR: GWEITHREDU ADRAN 453 O'R DDEDDF CWMNÏAU**

## YMATEB I'R YMGYNGHORI

1. Cyhoeddodd Tŷ'r Cwmnïau ddogfen ymgynghori ar 13 Gorffennaf, yn gwahodd ymatebion erbyn 12 Hydref. Daeth 16 ymateb i law. Daeth rhai ymatebion oddi wrth unigolion neu gyrff yn cynrychioli cwmnïau, ac eraill oddi wrth gyrff oedd â buddiant mewn darllen cyfrifon ar y cofnod cyhoeddus.

### Ateb cwestiynau'r ddogfen ymgynghori

2. Cynigiai'r ddogfen nifer o newidiadau i'r drefn bresennol at gyfer Cosbau Ffeilio Hwyr. Gofynnai dri chwestiwn:

   - A fyddai'r cynnig hwn yn gwireddu nod y Llywodraeth o berswadio cwmnïau i ffeilio'u cyfrifon yn brydlon?
   - A fyddai'r cynnig yn ymateb teg a chymesur i bwnc ffeilio hwyr?
   - A ddylid gweithredu ar 1 Chwefror 2009, neu ynghynt neu'n ddiweddarach.

3. Dadleuai lleiafrif o'r ymatebwyr mai camdybiaeth sylfaenol oedd holl gysyniad Cosbau Ffeilio Hwyr . Dadleuent ei fod yn faich digyfiawnhad ar gwmnïau bach na ffeilient yn hwyr yn bwrpasol, ac fel y cyfryw nad oedd yn effeithiol nac yn deg a chymesur. Roedd yn dilyn nad oeddent yn derbyn cynsail y trydydd cwestiwn.

4. Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr fod y cynnig yn deg a chymesur. Credai lleiafrif arwyddocaol nad oedd yn mynd yn ddigon pell, yn enwedig gyda golwg ar gwmnïau mawr a chwmnïau a ffeiliai'n hwyr iawn mewn ffordd graff. Galwai rhai ymatebwyr am gosbau uwch i gwmnïau mawr, dan gyswllt efallai â'u trosiant busnes. Dadleuai eraill nad oedd y cynnig tramgwyddo mynych yn mynd yn ddigon pell ac y dylai'r gosb barhau i gael ei lluosi bob tro y ffeiliai'r cwmni'n hwyr.

5. **At ei gilydd, daethom i'r casgliad y dylai'n cynnig sefyll, gan mai dyma'r cydbwysedd gorau rhwng buddiannau cwmnïau a buddiannau'r rhai sydd am ddarllen cyfrifon cwmni**.

### Materion eraill a godwyd

#### *Y Rheol Dyddiad Cyfatebol*

6. Cyfeiriai sawl ymatebydd at y rheol "dyddiad cyfatebol". Ar hyn o bryd, daw cyfrifon cwmnïau preifat yn ddyledus ar y "dyddiad cyfatebol" ddeg mis wedi diwedd y flwyddyn cyfleu manylion. Er enghraifft, os daw'r flwyddyn i ben ar 28 Chwefror, bydd y cyfrifon yn ddyledus ar 28 Rhagfyr, nid 31 Rhagfyr. Dyma achos dryswch mynych i gwmnïau, sy'n arwain yn aml at dynnu Cosb Ffeilio Hwyr.

7. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu newid y gyfraith ar y pwnc hwn. Ar gyfer pob rhyw gyfrifon a gaiff eu ffeilio o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 (mewn geiriau eraill, ar gyfer blynyddoedd yn dechrau ar neu wedi 6 Ebrill 2008), **bydd cyfrifon sydd â diwedd blwyddyn sy'n syrthio ar ddydd ola'r mis hefyd â dyddiad dyledus sy'n syrthio ar ddydd ola'r mis**. Nid yw hyn yn effeithio ar gyfrifon ar gyfer blynyddoedd sy'n dod i ben ar ganol y mis. A rhoi dwy enghraifft felly:

    - Blwyddyn yn dechrau ar 1 Mai 2008. Blwyddyn yn diweddu ar 30 Ebrill 2009. Y dyddiad dyledus fydd y dyddiad cyfatebol naw mis wedyn, felly 31 Ionawr 2010; ond
    - Blwyddyn yn dechrau ar 15 Mai 2008. Blwyddyn yn diweddu ar 14 Ebrill 2009. Y dyddiad dyledus o hyd fydd 14 Ionawr 2010.

***Rhyddid y Cofrestrydd i beidio â chasglu cosbau***

8. Amheuai rhai ymatebwyr weithrediad rhyddid y Cofrestrydd i beidio â chasglu cosbau. Bydd y rhyddid hwn yn parhau i gael ei weithredu yn yr un ffordd o dan y Ddeddf newydd. Yng ngweithrediad rhyddid y Cofrestrydd caiff Tŷ'r Cwmnïau ei lywio gan y gyfraith achosion, sy'n ei gwneud yn glir bod rhaid i unrhyw benderfyniad i beidio â chasglu cosb fod yn eithriadol.

9. Mae'r meini prawf y bydd y Cofrestrydd yn eu dilyn wedi cael eu cyhoeddi yn llyfryn Tŷ'r Cwmnïau ar "Late Filing Penalty Appeals". Rhaid i'r cwmni ddangos i gyfres o amgylchiadau eithriadol ei atal rhag ffeilio'n brydlon. Y disgwyl yw y bydd y cwmni'n gwneud pob ymdrech rhesymol i oresgyn unrhyw anawsterau – er enghraifft, dod o hyd i ddull cyflwyno arall os oes aflonyddu ar wasanaeth arferol y post.

***Cosbau Ffeilio Hwyr a chwmnïau bach***

10. Dadleuai rhai ymatebwyr nad oedd yr egwyddor o gosbau ffeilio hwyr yn tycio i gwmnïau bach, gan gynnwys cwmnïau segur, elusennau a chwmnïau rheoli fflatiau. Y ddadl oedd nad oes gan y cwmnïau hyn y cronfeydd i dalu cosbau a'i bod yn ymddangos yn wrthnysig eu cosbi am beth a allsai fod yn gamgymeriad bach a achosodd i'r cyfrifon gael eu ffeilio rai diwrnodau'n hwyr.

11. Mae'r Llywodraeth yn cydymdeimlo â'r anawsterau y bydd rhai cwmnïau bach yn eu hwynebu. Holl athroniaeth y Ddeddf Cwmnïau newydd yw "meddwl yn fach yn gyntaf" - gosod fframwaith o reolau wedi'u dylunio gyda chwmnïau bach mewn cof ac y bydd cwmnïau bach yn ei chael yn hawdd eu dilyn. Ond fe erys lefel isaf o rwymedigaethau y mae'n rhaid i bob cwmni eu bodloni, pa mor fach bynnag y bônt, fel rhan o'r drefn sy'n caniatáu manteisio ar statws atebolrwydd cyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys y rhwymedigaeth i ffeilio rhyw fath o gyfrifon. Ein barn ni yw, unwaith bod y lefel isaf bosibl hon o rwymedigaethau wedi'i gosod o dan y gyfraith, ei bod yn bwysig iddynt gael eu parchu. Cyn i Gosbau Ffeilio Hwyr gael eu cyflwyno ym 1992, roedd canran y cwmnïau a ffeiliai eu cyfrifon mewn pryd yn sylweddol is ac roedd y

Cofrestrydd ar y pryd yn wynebu beirniadaeth gyhoeddus hallt am fethu cyflawni'i gyfrifoldebau.

12. Fel y soniai un ymatebydd, bu i'r Comisiwn Ewropeaidd lansio'n ddiweddar ddogfen ymgynghori ar symleiddio cyfraith gwmnïau Ewrop. Cynigiai hon ddiffinio'r cwmnïau lleiaf yn "ficro-gwmnïau" na fyddent dan rwymedigaeth, ymhlith pethau eraill, i ffeilio cyfrifon ar y cofnod cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig hwn. Fodd bynnag, dim ond cynnig ydyw ar hyn o bryd ac mae rhwymedigaethau cwmnïau bach yn aros yn ddigyfnewid am y tro.

***Tramgwyddwyr cyson a difrifol***

13. Dadleuai rhai ymatebwyr y byddai'r cosbau uwch a arfaethid yn dal yn annigonol i ddelio â chwmnïau - yn enwedig rhai mawr - a ffeiliai'n hwyr dro ar ôl tro fel rhan o benderfyniad craff i gadw'u cyfrifon allan o'r maes cyhoeddus.

14. Gwerthfawrogwn yr ysbryd y gwnaed y sylwadau hyn ynddo. Ond ni chredwn y byddai gosod cosbau llym drwyddi draw yn iawn. Mae Tŷ'r Cwmnïau'n gweld y drefn Cosbau Ffeilio Hwyr yn gweithio ochr yn ochr â'r tramgwydd troseddol o fethu ffeilio cyfrifon, sy'n bodoli o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 ac yn cael ei atgynhyrchu o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Ein hymagwedd yw erlyn mewn ffordd amcanus y cyfarwyddwyr hynny y bydd eu cwmnïau'n ffeilio'n hwyr iawn neu'n gyson hwyr. Yn ystod 2006-07, bu inni lansio 3,828 o erlyniadau, gan sicrhau 1,797 o euogfarnau. Mae gan y llys hefyd y pŵer i wahardd cyfarwyddwr sy'n anufuddhau'n gyson i'w rwymedigaethau ffeilio o dan y Ddeddf Cwmnïau.

**Camau Nesaf**

15. Mae'r Llywodraeth wedi rhoi rheoliadau drafft gerbron y Senedd i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r drefn Cosbau Ffeilio Hwyr – Rheoliadau Cwmnïau (Cosbau Ffeilio Hwyr) a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Cyfnodau Ffeilio a Chosbau Ffeilio Hwyr) 2008. Bydd y rheoliadau hefyd yn cysoni cyfnod ffeilio statudol Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig â chyfnod ffeilio cwmnïau cyfyngedig. Mae'r rheoliadau i'w gweld ar wefan y Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus (http://www.opsi.gov.uk/si/dsi27-12)

**Tŷ'r Cwmnïau**
**Ionawr 2008**